



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Lexham Green**

**Cartref Gorffwys Lexham Green  
50 Brunswick Road  
Bwcle  
CH7 2EP**

## **Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

1 Chwefror 2024

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Cartref Gofal Lexham Green

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Lexham Green Limited
Lleuedd cofrestredig	29
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	22 Mawrth 2022
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng Nghartref Gofal Lexham Green yn cael gofal a chymorth da. Mae'r staff gofal yn deall anghenion y bobl ac yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r staff gofal yn frwdfrydig am ddarparu'r gofal gorau i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r bobl a'u perthnasau yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy hyfforddiant, sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau rheolaidd. Y rheolwr yw'r Unigolyn Cyfrifol hefyd. Mae'n bresennol yn y cartref drwy gydol yr wythnos ac yn awyddus i wella'r gwasanaeth.

Mae'r adeilad yn gartrefol, mewn cyflwr da ac mae darparwr y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Caiff y bobl gymorth i barhau i fod yn annibynnol. Ar y cyfan, mae'r cynlluniau personol yn glir ar y ffordd orau o gefnogi'r bobl i gynnal eu hannibyniaeth. Mae cyfarpar ar gael i'r bobl i'w helpu i gynnal eu hannibyniaeth. Mae'r nodau a'r canlyniadau yn canolbwyntio ar alluogi'r bobl i wneud yr hyn sydd o fewn eu gallu. Mae'r rheolwr yn ceisio cymorth eirioli ar gyfer y bobl, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n briodol i sicrhau bod eu safbwyntiau a'u dymuniadau'n cael eu clywed. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i'r bobl drafod ac awgrymu gweithgareddau, teithiau dydd, décor a bwydlenni. Mae'r rheolwr yn bwriadu ailgychwyn teithiau dydd eleni.

Ar adeg yr arolygiad, roedd dau weithiwr gofal yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, ond nid yw'r ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd. Nid oedd unrhyw un oedd yn byw yn y cartref yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ond golyga hyn y gall y bobl gael gwasanaeth yn eu dewis iaith.

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Caiff digwyddiadau megis cwmpiaadau eu cofnodi a'u harchwilio, cymerir camau gweithredu priodol a chaiff y rhain eu cofnodi. Mae gwasanaethau iechyd ar gael i'r bobl yn ôl yr angen. Mae cofnodion yn dangos bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymweld â'r bobl yn rheolaidd, a chaiff gohebiaeth/apwyntiadau eu cofnodi. Mae'r cydgysylltydd gweithgareddau yn gweithio yn y gwasanaeth bum diwrnod yr wythnos. Gall y bobl ddewis a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgareddau ai peidio a chaiff eu dymuniadau eu parchu. Caiff y bobl eu helpu i gynnal cydberthnasau â ffrindiau a theulu. Roedd yr ymwelwyr yn siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a gwnaethant ddweud y gallant ymweld â'r gwasanaeth mor aml ag y dymunant. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd. Mae'r fwydlen yn amrywiol a chynigir opsiynau amgen os nad ydynt yn hoff o'r dewisiadau sydd ar gael.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae darparwr y gwasanaeth yn cymryd camau priodol pan fydd pryderon. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth. Gofynnir am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid pan fydd angen, er mwyn sicrhau bod hawliau'r bobl yn cael eu parchu. Mae'r polisi diogelu yn rhoi canllawiau clir i weithwyr gofal am sut i godi pryder diogelu ac mae'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau.

Mae'r amgylchedd yn addas i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r amgylchedd yn gartrefol a gall y bobl ddewis ble y byddant yn treulio eu hamser. Mae'n lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda drwyddi draw. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod cyfarpar ar gael i'r bobl pan fydd ei angen arnynt.



## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion. Cyn cytuno ar ddarparu'r gwasanaeth, mae'r rheolwr yn cwblhau'r asesiad cyn derbyn. Yna caiff llythyr ei anfon at yr unigolyn er mwyn cadarnhau a all y gwasanaeth ddiwallu ei anghenion ai peidio. Mae'r staff gofal yn dogfennu'r gofal a ddarperir, ac mae hyn yn dangos bod y bobl yn cael y cymorth cywir ac roedd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn deall anghenion a dewisiadau'r bobl. Mae'r staff gofal yn cyfeirio at weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fydd angen a chaiff unrhyw apwyntiadau neu ohebiaeth â gweithwyr proffesiynol eu cofnodi. Mae cofnodion yn dangos bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymweld â'r bobl yn rheolaidd. Gwelsom fod y staff gofal a'r bobl yn rhyngweithio â'i gilydd a nodwyd gennym fod y staff gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch, a bod ganddynt gydberthynas gadarnhaol â nhw.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Roedd adborth gan y perthnasau yn cynnwys "*The care they give is second to none*", "*They treat them as individuals*", "[mae'r staff gofal yn] *attentive*", "*I have got my [relative] back*", "*the staff are lovely*" ac "*I haven't got any complaints whatsoever*". Gwnaethant ddweud nad oedd ganddynt reswm i gwyno ond y byddent yn teimlo y gallent siarad â'r rheolwr pe byddai ganddynt unrhyw broblemau. Mae'r staff gofal yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau neu bryderon i'r teuluoedd. Mae'r adborth gan y bobl yn cynnwys [mae'n] "*very nice here*", "*I'm quite happy*" ac "*I'm very comfortable*". Dywedodd y bobl wrthym fod y staff gofal yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt ac nid oeddent yn gallu awgrymu ffyrdd o wella'r gwasanaeth.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar waith i hyrwyddo arferion hylendid ac i reoli'r risg o heintiau. Mae digon o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) a chyflenwadau glanhau ar gael. Mae'r adeilad yn lân ac yn daclus drwyddo. Mae'r polisi rheoli heintiau yn unol â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth a chaiff ei adolygu'n rheolaidd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth mewn lleoliad ac amgylchedd â chyfleusterau a chyfarpar i'w hannog i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r adeilad wedi cael ei ddisgrifio'n gywir yn Natganiad o Ddiben y gwasanaeth. Mae'r cartref mewn cyflwr da, yn lân ac yn daclus ac nid oes unrhyw arogleuon gwael yno. Mae'r bobl yn gallu cael gafael ar gyfarpar arbenigol, megis cymhorthion symudedd i'w helpu i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r cartref yn gynnes ac yn olau. Mae gan y bobl le i storio eu heiddo. Mae pob ystafell wely wedi'i haddurno'n wahanol, ac mae'r bobl yn arddangos eu lluniau eu hunain er mwyn rhoi ymdeimlad cartrefol i'w hystafelloedd gwely. Gall y bobl ddewis ble i dreulio eu hamser, naill ai yn eu hystafelloedd eu hunain neu mewn ardaloedd cymunedol. Roedd y bobl yn cael cynnig bath neu gawod a dywedodd y bobl wrthym y gallant ofyn am rhain mor aml ag y dymunant. Mae clychau galw ym mhob ystafell wely ac ystafell ymolchi/cyfleusterau toiled. Mae tir y gwasanaeth yn ddeniadol ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac mae seddi ar gael pan fydd y tywydd yn caniatáu. Mae systemau ar waith i'r staff gofal roi gwybod am unrhyw waith cynnal a chadw sydd ei angen a chaiff y tasgau hyn eu cyflawni'n gyflym. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ynghylch ailaddurno'r cartref. Gofynnir iddynt am eu barn a'u hawgrymiadau yn ystod cyfarfodydd y preswylwyr.

Mae darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Mae cofnodlyfr ymwelwyr ar waith i'r holl ymwelwyr ei lofnodi wrth gyrraedd a gadael yr adeilad, at ddibenion diogelwch tân. Mae'r rhan fwyaf o wiriadau iechyd a diogelwch yn gyfredol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch tân rheolaidd ac mae darparwr y gwasanaeth yn cymryd camau i ddatrys unrhyw faterion iechyd a diogelwch a nodwyd o ymweliadau diweddar gan wasanaethau allanol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn cefnogi'r gwaith o redeg y gwasanaeth. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir, a chaiff polisiâu a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd. Mae polisi cwynion ar waith sy'n nodi'n glir sut yr ymchwilir i unrhyw gŵyn a godir. Y rheolwr yw'r Unigolyn Cyfrifol hefyd ac mae'n bresennol yn y gwasanaeth yn ystod yr wythnos. Mae'n ofynnol i'r Unigolyn Cyfrifol ddogfennu ei ymweliadau ffurfiol â'r gwasanaeth, fel rhan o'r broses o fonitro perfformiad y gwasanaeth. Mae wedi rhoi sicrwydd i AGC y bydd yn cofnodi ei ymweliadau ffurfiol. Mae'r adroddiadau ar adolygiadau ansawdd gofal yn dangos bod y darparwr yn dadansoddi'r adborth a geir gan y bobl a'u perthnasau fel rhan o ddatblygiad parhaus y gwasanaeth.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwyllo'r trefniadau ariannol ac yn parhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth. Gwelsom fod digon o fwyd, PPE a chyfarpar glanhau ar gael. Gwnaethom adolygu sampl o rotas y staff. Mae'r rhain yn dangos bod y lefelau staffio yn unol â'r Datganiad o Ddiben, ac mae mesurau ar waith i gyflenwi absenoldebau staff. Cadarnhaodd y staff gofal fod digon o staff gofal ar ddyletswydd a bod ganddynt amser i'w dreulio gyda'r bobl. Mae darparwr y gwasanaeth yn cyflogi cydgysylltydd gweithgareddau er mwyn darparu gweithgareddau drwy gydol yr wythnos. Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol ar waith.

Caiff y bobl eu cefnogi gan ddarparwr gwasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff gofal, sy'n cael hyfforddiant rheolaidd ac yn cael eu fetio cyn dechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant rheolaidd, gan gynnwys gofal dementia a diogelu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau rheolaidd. Mae'r rhain yn rhoi'r cyfle iddynt fyfyrion ar eu hymarfer, trafod unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu a chael adborth ar eu perfformiad. Mae gan bob aelod o'r staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Caiff asesiadau cymhwysedd meddyginiaeth rheolaidd eu cwblhau er mwyn sicrhau bod y staff gofal sy'n rhoi meddyginiaeth yn gymwys i gyflawni'r rôl honno. Mae'r cyfarfodydd staff yn rhoi'r cyfle i'r staff gofal drafod unrhyw faterion, rhannu gwybodaeth a chaiff unrhyw gamau a gymerir eu dogfennu. Roedd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn canmol eu profiad o weithio yn y cartref yn fawr. Roedd yr adborth a gafwyd gan y staff gofal yn cynnwys *"I love it here. It's the best home I have worked at"* a "[mae'r] *Managers support you in everything you do.*"



### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

## Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 12/03/2024**